


# Ein hadroddiad effaith

**Ebrill 2024 i Mawrth 2025**

**www.chwarae.cymru**

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen gofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru Mai 2026

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad y Cadeirydd | 4 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr | 5 |
| Am Chwarae Cymru | 7 |
| Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd 2024-2025 | 8 |
| Gweithwyr proffesiynol hyddysg | 9 |
| Ymgysylltu a chyhoeddiadau | 12 |
| Cynulleidfaoedd a phrosiectau newydd | 14 |
| Ymholiadau gan y cyhoedd | 16 |
| Cefnogwyr Chwarae Cymru | 17 |
| Cefnogaeth a gwaith eiriol | 18 |
| Adolygiad ariannol – crynodeb | 19 |
| Cyflawniadau: 1998-2024 | 20 |
| Cynlluniau ar gyfer y dyfodol 2025-2026 | 24 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru – llywodraethu | 25 |
| Tîm Chwarae Cymru | 25 |

# Adroddiad y Cadeirydd

Roeddwn mewn parc lleol y diwrnod o'r blaen yn edrych ar yr offer chwarae ac yn siarad trwy'r hyn allai fod angen ei newid neu ei ddiweddaru gydag aelodau o'r cyngor tref. Roedd amryw'n teimlo bod y lle chwarae'n edrych braidd yn ddi-raen ac angen ei dacluso.

Ychydig ddyddiau wedyn cefais sgwrs gyda rhai o'r plant am y lle chwarae a gofynnais iddyn nhw beth oedden nhw'n feddwl amdano. Roedden nhw wrth eu bodd gyda'r lle chwarae ac, yn ddiddorol iawn, roedden nhw'n frwd iawn ynghylch yr 'half-pipe' y bydden nhw'n ei dringo, llithro i lawr ei hochr a'i defnyddio gyda'u sglefrfyrddau a'u hesgidiau llafnrolio.

Yn gyffredinol, roedden nhw'n bositif iawn ynghylch y safle i gyd. Roedden nhw'n gwbl bendant mai eu llecyn nhw oedd hwn ac os oes unrhyw newidiadau i ddigwydd, roedden nhw am gael cyfle i ddweud eu dweud. Rwy'n gwybod bod y cyngor tref, sy'n gyfrifol am y parc, yn awyddus i gynnwys y plant wrth i unrhyw waith fynd rhagddo. Ond, wrth gwrs, roedd pryder anochel ynghylch adnoddau a'r hyn ellid ei fforddio.

Wrth imi fyfyrio ar ein gwaith yma yn Chwarae Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf, gallaf weld bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ein gwaith ni ar lefel genedlaethol a sut y mae hynny'n cefnogi'r bobl hynny sy'n darparu ar lefel leol. Mae popeth yr ydym yn ei wneud wedi ei anelu at hyrwyddo chwarae plant, gan weithredu fel eiriolwr dros blant a'u hawl i chwarae.

Fel Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru, rydym yn gyfrifol am lywodraethiant yr elusen a sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion ac yn gweithredu'n effeithlon ac yn unol â'r gyfraith. Mae cael trosolwg o'n gwaith i gyd yn golygu ein bod yma hefyd i graffu ar waith, cynnig cyngor a chefnogaeth i'n tîm o staff. Rwy'n ddiolchgar i'm cyd-ymddiriedolwyr, ac wrth gwrs i'r tîm o staff sy'n dal i weithio i safon uchel gydag ymroddiad ac uniondeb proffesiynol.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn ble rydym wedi parhau i fwynhau perthynas gadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru, sef nid yn unig ein prif gyllidwr, ond y mae ei ymroddiad i hawliau plant ac anghenion chwarae plant yn dal i fod cyn gryfed ag erioed.

Mae'r adroddiad effaith hwn yn gofnod o gyflawniadau ac allbwn y tîm. Ar lefel Bwrdd, credwn ein bod yn perfformio'n dda ond, fel erioed, 'does dim lle i hunanfodlonrwydd. Cofiwch gysylltu gyda ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

Wrth edrych ymlaen, mae digon o heriau i fynd i'r afael â nhw. Mae Chwarae Cymru'n bodoli i eiriol dros chwarae plant a chynnal ein ffocws ar yr hyn sy'n cefnogi trosglwyddo chwarae orau. Byddwn yn edrych ar ein hunain ac yn edrych ar yr hyn sydd angen inni ei wneud ac yn adeiladu ar y sylfaen cadarn yr ydym wedi ei greu eisoes.

**Keith Towler**
Cadeirydd, Chwarae Cymru

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn gyfnod o gynnydd ac effaith cadarnhaol parhaus i Chwarae Cymru. Rydym wedi parhau i 'wneud yr hyn mae'n ei ddweud ar y tun' – sef eiriol dros yr hawl i chwarae a dylanwadu ar bolisi, gan ymdrechu i sicrhau bod hawl plant i chwarae'n aros wrth galon polisi ac ymarfer yng Nghymru.

Rydym wedi parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, gyda chymorth ymarferol, gan ymateb i ymgynghoriadau cenedlaethol ac, os oes angen, weithredu fel cyfaill beirniadol. Mae ein hymgysylltiad gyda grwpiau polisi cenedlaethol a rhyngwladol, yn cynnwys yr UK Children's Play Policy Forum, yr UK Play Safety Forum a'r International Play Association (IPA), wedi sicrhau bod safbwyntiau Cymreig yn hysbysu datblygiadau, ac yn cael eu cynrychioli mewn datblygiadau.

Rydym wedi ymgysylltu gyda, ac ymateb i geisiadau i ddarparu cymorth, gwybodaeth ac arweiniad i sefydliadau ac unigolion lleol, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau lleol, asiantaethau a Llywodraeth Cymru. Rydym yn benodol, wedi darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i awdurdodau lleol wrth baratoi eu Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae teirblynyddol.

Mae ein gwefannau wedi parhau i ddenu nifer sylweddol o ymwelwyr ac rydym wedi cynhyrchu a dosbarthu ystod eang o adnoddau dwyieithog, yn cynnwys cylchgrawn *Chwarae dros Gymru* a thaflenni gwybodaeth a phecynnau cymorth newydd i gefnogi'r sector. Rydym wedi parhau i ddatblygu *Plentyndod Chwareus*, ein gwefan a ddyluniwyd i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad hygyrch i rieni a gofalwyr, yn ogystal ag ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

Mae ein hymgysylltiad organig ar y cyfryngau cymdeithasol yn dal i fod yn gryf, ac fe wnaethom barhau i gynyddu ymwybyddiaeth trwy ymddangosiadau ar y cyfryngau trwy gydol y flwyddyn.

Wedi llawer mwy o waith nag a ragwelwyd yn wreiddiol, fe wnaethom gyhoeddi *Chwarae a lles*, yr adolygiad llenyddiaeth mwyaf cynhwysfawr o ymchwil a datblygu ar chwarae am fwy na degawd. Yr adolygiad hwn oedd prif destun trafod ein cynhadledd flynyddol ac rydym yn rhagweld y gwelwn ei ddylanwad ar ddealltwriaeth o chwarae a sut y gallem ni, fel cymdeithas, ddarparu hyd yn oed yn fwy effeithlon ar gyfer hawl plant i chwarae.

Rydym wedi parhau i chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r gweithlu, gan gefnogi trosglwyddo a sicrhau ansawdd cymwysterau gwaith chwarae ar hyd a lled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Trwy gydweithio gyda chanolfannau hyfforddi, prifysgolion a Llywodraeth Cymru, rydym wedi atgyfnerthu'r seilwaith ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Dylid nodi bod Chwarae Cymru wedi llwyddo i ddwyn ynghyd bedwar sefydliad chwarae cenedlaethol y DU a'r Playwork Foundation i ffurfio consortiwm i gynnal yr adolygiad o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae.

Mae ein hymdrechion i wella ein hymgysylltiad gyda sefydliadau Cymreig eraill, yn enwedig o ran mentrau addysg ac iechyd y cyhoedd, wedi bod o fudd mawr gyda'n cyfranogiad cynyddol mewn llu o wahanol fentrau. Mae'r rhain i gyd wedi bod o fudd i'n cynulleidfa eang sy'n cynnwys rhieni, gofalwyr, gweithwyr chwarae, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, ac maent yn cyfrannu at les plant a bywiogrwydd cymunedau ledled Cymru.

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru



‘Diolch o galon ichi am eich cefnogaeth … Roedd wir yn bleser rhoi sylw i waith gwych Chwarae Cymru … ’Does dim dwywaith y bydd y wybodaeth a ddarparwyd gennych a’r adnoddau a rannoch gyda ni yn ysbrydoli ymarfer, yn ychwanegu gwerth ac yn cefnogi ardaloedd yn lleol ac yn rhanbarthol wrth weithredu [gwaith] yn effeithlon’.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

# Am Chwarae Cymru

## Yr elusen genedlaethol dros chwarae plant yng Nghymru

### Ein gweledigaeth

Dyfodol ble caiff chwarae ei werthfawrogi yng Nghymru am ei fod yn hanfodol i blentyndod iach a hapus. Gwlad ble mae plant yn rhydd i archwilio, darganfod, datblygu a thyfu drwy chwarae.

### Ein cennad

Ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar trwy arwain gyda bwriad, cydweithio gyda chynwysoldeb, addysgu gyda brwdfrydedd, a chefnogi gyda sensitifrwydd.




Yn ein gwaith, rydym yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- **Cynyddu ymwybyddiaeth:** rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth am angen a hawl plant ac arddegwyr i chwarae.
- **Hybu arfer da:** rydym yn hyrwyddo arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau. Rydym hefyd yn hyrwyddo arfer da ble bynnag y gall plant chwarae.
- **Darparu cyngor ac arweiniad ar draws pob sector:** rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pawb sydd â diddordeb mewn, neu sy’n gyfrifol am, ddarparu’r hyn sydd ei angen ar gyfer chwarae plant.

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- **Polisi:** gweithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygiad polisi a materion chwarae plant eraill.
- **Gwasanaeth gwybodaeth:** hybu gwerth chwarae plant trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol ac amserol i bawb sydd â diddordeb mewn, neu sy’n gyfrifol am, chwarae plant.
- **Cyngor a chefnogaeth:** darparu gwybodaeth arbenigol am bob mater sy’n effeithio ar chwarae plant.
- **Datblygu’r gweithlu:** cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.

**Ers mis Hydref 2014 (tan fis Mawrth 2025) mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru er mwyn darparu ystod eang o gymorth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.**

# Crynodeb o’r hyn a gyflawnwyd 2024-2025

## Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

**Rydym yn gweithio’n agos gydag awdurdodau lleol a’u partneriaid i gefnogi gweithrediad eu Dyletswyddau Digonolrwydd Chwarae statudol.**

Mae Chwarae Cymru wedi:

- casglu data a dechrau’r dadansoddiad Cymru-gyfan o bron i 8,000 o Arolygon Bodlonrwydd Chwarae plant
- ymchwilio a chynnal prosiectau wnaeth weithredu cyfleoedd chwarae ar ôl ysgol a chefnogi anghenion chwarae plant sy’n byw mewn llety dros dro
- dechrau gwaith i adrodd ar Gerdyn Adroddiad Plant Egnïol Iach (Cymru) fydd yn cyfrannu at y Matrics Byd-eang
- ymateb i bum ymgynghoriad cenedlaethol perthnasol
- cyfrannu at amrywiol gyhoeddiadau academaidd a chyhoeddiadau allanol
- cynnal gweithgarwch codi arian yn unol â’n Strategaeth Codi Arian, gan gyfrannu at dri chynnig ymchwil dan arweiniad academyddion i’r Athrofa Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR)
- cynllunio a throsglwyddo cyflwyniadau mewn digwyddiadau chwarae a chynadleddau lleol (ar-lein ac wyneb yn wyneb) ar hyd a lled Cymru
- cynllunio a throsglwyddo ystod eang o weithdai i gefnogi awdurdodau lleol gyda’u Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae statudol
- trosglwyddo pedwar cyfarfod o Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC) – gan gefnogi dialog rhwng cyflogwyr gwaith chwarae, sefydliadau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymwysterau Cymru
- datblygu’r seilwaith ar gyfer trosglwyddiad cenedlaethol cymwysterau gwaith chwarae trwy gefnogi datblygiad a gweithrediad parhaus chwe Chanolfan Hyfforddi – mae hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd cymwysterau L2APP, MAHPS a P³ a chefnogi hyfforddwyr ac aseswyr, trwy weithgareddau safoni parhaus
- parhau i weithio’n unol â chamau gweithredu *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, cynllun Chwarae Cymru ar gyfer datblygiad parhaus y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae
- datblygu’r model trosglwyddo a chynnal peilot o *Chwarae o Safon*, fframwaith sicrhau ansawdd newydd ar gyfer gwaith chwarae
- trosglwyddo cynhadledd genedlaethol, cynhadledd ranbarthol yng ngogledd Cymru a digwyddiad awyr agored deuddydd o hyd, yn ogystal ag amrywiol gyflwyniadau a gweithdai i gefnogi’r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae
- parhau i ddatblygu ymgyrch a gwefan *Plentyndod Chwareus* – yn ogystal â helpu rhieni, mae’r wefan wedi ei hanelu at bobl broffesiynol sy’n gweithio gyda theuluoedd i ddarparu syniadau ymarferol ar gyfer rhoi digon o gyfleoedd da i blant chwarae
- datblygu ystod eang o adnoddau i gefnogi ymarferwyr, yn cynnwys gweithwyr chwarae ac athrawon.

### Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

Fe wnaethom gynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion o adroddiad Grŵp Llywio’r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae a chyflawni cerrig milltir a restrwyd yn yr adolygiad trwy:

- gyfrannu at adolygu templed a phecyn cymorth yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae gyda swyddogion digonolrwydd cyfleoedd chwarae awdurdodau lleol
- darparu arweiniad ar yr adolygiad o *Cymru – Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae*, y canllawiau statudol ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae
- rhannu cyngor ac arweiniad penodol o ran materion sy’n ymwneud â’r gweithlu er mwyn hysbysu’r Cynllun Gweithredu Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru.

# Gweithwyr proffesiynol hyddysg

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r gweithlu chwarae fel 'unrhyw un cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar blant yn chwarae – y bobl hynny allai un ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, dylunio ar gyfer chwarae, neu'r rheini sydd a'r pŵer i roi caniatâd i blant chwarae, neu beidio' (*Cymru – Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae*, 2025). Mae'r gweithlu chwarae'n cynnwys gweithwyr chwarae ond mae hefyd yn cynnwys ystod eang iawn o weithwyr proffesiynol eraill o ysgolion, adrannau cynllunio, priffyrdd a thrafnidiaeth, iechyd a diogelwch a gofal plant, yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau tref a chymuned ac aelodau etholedig.

**Mae Chwarae Cymru wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgarwch er mwyn sicrhau bod y gweithlu chwarae'n cael cyfle i gryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl wrth sicrhau bod plant yn cael mwy a mwy o gyfleoedd i chwarae.**

## Trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom:

- drosglwyddo Gwobr Lefel 3 mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT) i 10 o ddysgwyr er mwyn cynyddu'r seilwaith o diwtoriaid gwaith chwarae galwedigaethol gymwys yng Nghymru.
- datblygu'r seilwaith ar gyfer trosglwyddiad cenedlaethol cymwysterau gwaith chwarae trwy gefnogi datblygiad a gweithrediad parhaus chwe chanolfan hyfforddi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd cymwysterau L2APP, MAHPS a P[3], yn ogystal â chefnogi hyfforddwyr ac aseswyr, adolygu dulliau asesu a chynghori ar drosglwyddo.
- gweithio gyda PETC Cymru a phartneriaid eraill i ddynodi ariannu ar gyfer trosglwyddiad cynaliadwy cymwysterau gwaith chwarae a chreu'r seilwaith o hyfforddwyr, gan ddefnyddio ystod eang o fodelau ariannu, yn cynnwys Rhaglen Cymorth Hyfforddiant Llywodraeth Cymru.
- trosglwyddo'r cwrs Gwaith Chwarae Rhyngwladol: Uwch-ymarferydd i chwe dysgwr yn Yr Iseldiroedd trwy Jantje Beton a throsglwyddo'r cwrs Gwaith Chwarae Rhyngwladol: Ymarferydd Sylfaenol i 56 o ddysgwyr yn Awstralia. Yn ogystal, rydym yn datblygu mecanweithiau ar gyfer trosglwyddo hyfforddiant Chwarae Cymru dan gytundeb trwyddedu gyda Play Australia.
- gweithio gyda thîm rhaglen gradd Astudiaethau Plentyndod Cynnar Prifysgol Metropolitan Caerdydd i ddatblygu modiwl yn seiliedig ar L2APP i'w drosglwyddo ym mlwyddyn academaidd 2025/2026.

## Chwarae o Safon

Fe wnaethom barhau i ddatblygu model trosglwyddo *Chwarae o Safon*, ein marc safon gwaith chwarae newydd, gyda chymorth gan fyfyrwyr Ysgol Busnes Caerdydd. Dan y teitl uniaith Gymraeg, *Chwarae o Safon*, dyma'n fframwaith sicrhau ansawdd newydd ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae yng Nghymru.

Bydd y fframwaith yn addas ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig ac anghofrestredig yn ogystal â lleoliadau ble nad yw gwaith chwarae'n brif swyddogaeth, megis ysgolion sydd am dystio i ymarfer gwaith chwarae o safon.

Bydd ar gael ar ffurf dull hunanasesu. Anogir lleoliadau i gyflawni proses asesu allanol i dderbyn bathodyn ansawdd i arddangos eu bod wedi cyflawni gofynion y fframwaith ansawdd.

## Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom gefnogi datblygiad, trefnu a chynnal nifer o ddigwyddiadau a chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer y sector chwarae a gwaith chwarae ehangach, yn cynnwys cynllunio a throsglwyddo:

### Cynhadledd genedlaethol

Cynhaliwyd ein cynhadledd genedlaethol yng Nghaerdydd unwaith eto gan ddenu 127 o gynadleddwyr. Y thema oedd chwarae a lles: o ymchwil i ymarfer. Roedd y prif siaradwyr gwadd yn cynnwys Dr Wendy Russell, Mike Barclay a Ben Tawil, yn ogystal â Robyn Monro Miller. Yn ogystal, fe wnaeth y diwrnod gynnwys amrywiol weithdai, ar wahanol bynciau, fel hawliau plant, gwaith chwarae a gwaith ieuenctid, ac asesu risg-budd dynamig.

### Fforwm Gweithwyr Chwarae

Digwyddiad DPP deuddydd, awyr agored ar gyfer 50 o gyfranogwyr. Y ffocws ar gyfer digwyddiad 2024 oedd prif areithiau cryno ar werth gwaith chwarae mewn amrywiol gyd-destunau, a sgiliau ymarferol. Mae'r Fforwm Gweithwyr Chwarae yn rhoi cyfle i weithwyr chwarae ddysgu oddi wrth ei gilydd a hyfforddwyr gwaith chwarae profiadol.

### Cynhadledd Gogledd Cymru

Trosglwyddwyd cynhadledd undydd Digonolrwydd chwarae: deall eich rôl yn y ddyletswydd statudol i 37 o gyfranogwyr o awdurdodau lleol ar draws gogledd Cymru.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae a gwaith chwarae, mae ein tîm wedi trosglwyddo ystod eang o gyflwyniadau, gweminarau, gweithdai a stondinau marchnad ar gyfer amrywiol ddigwyddiadau a sefydliadau:

- Canolfan y Dechnoleg Amgen (ar gyfer penseiri dan hyfforddiant)
- Cynhadledd ar-lein Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (cyflwyno gwobr)
- Cynhadledd Gofal Plant a Chwarae Sir Ddinbych
- Cynhadledd Creu Lleoedd ar gyfer Canol Trefi Comisiwn Dylunio Cymru
- Blynyddoedd Cynnar Cymru (gweminar ar risg)
- Rhwydwaith Man Gwyrdd Cymru
- National Playwork Conference (gweithdy ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol)
- GIG Cymru (Sesiwn Dysgu dros Ginio)
- Gofal Cymdeithasol Cymru (dau weminar ar chwarae a lles)
- Cynhadledd Blynyddoedd Cynnar Gofal Cymdeithasol Cymru (hwylusydd a stondinwr)
- Theatr Cynulleidfaoedd Ifanc (TYA) Cymru
- Cynhadledd Blaenoriaethu Chwarae Torfaen
- Cynhadledd Foundations for the Future: Enhancing Lives of Babies, Children, Young People and their Families, Llywodraeth Cymru (gweithdy)
- Maethu Môn (gweithdy)
- Sioeau Addysg Cenedlaethol (stondin marchnad).

## Dweud eich dweud...

**Dyma oedd gan gyfranogwyr ein cynhadledd genedlaethol flynyddol yn 2024 i'w ddweud:**

'Hwyluso rhagorol, trosglwyddo diasiad, cynnwys gwych a hynod o briodol a pherthnasol. Llwyddiant ysgubol.'

'Gweithdai da, diddorol y gallaf eu cynnwys yn uniongyrchol yn fy ngwaith.'

'Gweithdai diddorol, da, roedd yn wych gallu rhwydweithio gyda gwahanol wasanaethau a rhannu ymarfer.'

'Fel bob tro, mae cynadleddau Chwarae Cymru'n rhagorol.'

**A dyma sut y soniodd cyfranogwyr Fforwm Gweithwyr Chwarae 2024 am eu profiadau:**

'Uchafbwynt llwyr ein blwyddyn waith, llawer gwell nac unrhyw gynulliad arall o weithwyr chwarae yr ydym wedi ei brofi hyd yma.'

'Rwyf wrth fy modd, rwy'n ymlacio, yn cwrdd gyda phobl, yn diweddaru fy ngwybodaeth, yn cael fy herio, mae'n anhygoel.'

'Dyma'r tro cyntaf imi fynychu ac roeddwn i'n teimlo mor gyfforddus a chartrefol, roedd yn brofiad gwych i rwydweithio a dysgu mewn amgylchedd hamddenol a chwareus!'

## Cydweithio'n lleol ac yn genedlaethol

Ar lefel leol, rydym wedi:

- cefnogi Cyngor Sir Ynys Môn i ddatblygu Fframwaith Strategol ar gyfer Chwarae
- gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol i ddatblygu prosiectau sy'n chwilio am a chyflenwi deunyddiau rhannau rhydd ar gyfer chwarae
- cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i weithredu canfyddiadau eu gwerthusiad a gomisiynwyd, sef Gwasanaeth Chwarae yn yr Ysbyty
- datblygu a chynnal peilot o'n pecyn cymorth *Chwarae y tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar* gyda Thîm Lleol Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- cynnal tri lleoliad i fyfyrwyr o Brifysgol Caerdydd i'n cynorthwyo gyda chasglu a dadansoddi data o Holiaduron Bodlonrwydd Chwarae plant Cymru gyfan
- ymgysylltu gydag amrywiol dimau lleol iechyd y cyhoedd i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae.

Ac, yn genedlaethol, rydym wedi gweithio gyda:

- Llywodraeth Cymru i ddiweddaru templed a phecyn cymorth yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae, yn dilyn ymgysylltu gyda swyddogion digonolrwydd cyfleoedd chwarae mewn awdurdodau lleol
- Starlight Children's Foundation i eiriol dros ymateb strategol i anghenion chwarae plant fel rhan o'u taith gofal iechyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill ar ddatblygu eu Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.

## Cydweithredu yn y DU ac yn rhyngwladol

Fel rhan o'n gwaith ehangach fel canolfan ragoriaeth ryngwladol, fe wnaethom:

- gynllunio a throsglwyddo cyfres o weminarau Deall Digonolrwydd Chwarae gyda'r Dr Wendy Russell a Ludicology (a arianwyd gan Brifysgol Swydd Gaerloyw)
- parhau i ddarparu cefnogaeth i IPA World i lynu at ofynion fel elusen ryngwladol sydd wedi ei chofrestru yng Nghymru a Lloegr
- darparu cymorth ysgrifenyddiaeth i gangen International Play Association (IPA) Cymru Wales
- cydweithio gyda Starlight Children's Foundation i gefnogi Arbenigwyr Chwarae Ysbytai yng Nghymru.

'Fe wnes i fynychu cyflwyniad gan Chwarae Cymru. Cefais fy rhyfeddu gan eich syniadau gwych a'ch astudiaethau achos.'

**Newport City Homes**

## Cydweithio academaidd

Fe wnaethom barhau â phartneriaethau ymchwil gyda Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd gan gynghori ar ystod o bynciau ymchwil, yn cynnwys: chwarae mewn ysgolion, chwarae a hiwmor, chwarae yn y blynyddoedd cynnar ac ymgysylltu â theuluoedd, chwarae, gweithgarwch corfforol a lles, chwarae a phlant wedi'u dadleoli, a chwarae a chynllunio.

Fe gynhaliom weithgareddau codi arian yn unol â'n Strategaeth Codi Arian, gan gyfrannu at dri chynnig ymchwil dan arweiniad academyddion i'r Athrofa Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR):

- ymchwilio i effaith ymatebion awdurdodau lleol i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yng Nghymru ar ddeilliannau chwarae ac iechyd a lles plant
- archwilio darpariaeth chwarae prynhawn mewn ysgolion
- adolygu effaith a chyd-destunoli menter Healthy Dads, Healthy Kids.


## Consortiwm NOS Gwaith Chwarae y DU

Mae Chwarae Cymru'n darparu ysgrifenyddiaeth i Gonsortiwm NOS Gwaith Chwarae y DU. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Chwarae Cymru, Play Scotland, Play England, PlayBoard Northern Ireland a'r Playwork Foundation.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i arwain ar adolygiad y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer Gwaith Chwarae ar ran y consortiwm. Disgwylir i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau yn 2026. Am fwy o wybodaeth am y consortiwm a'r adolygiad NOS, ewch i: **www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu**

# Ymgysylltu a chyhoeddiadau

Mae ein hadnoddau ar gael i bawb ar ein gwefan:
**www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau**




## Gwefan

Fe wnaethom barhau i wella ein gwefan a'i diweddaru'n rheolaidd gyda gwybodaeth, amserol, cyfredol a defnyddiol. Yn ystod y flwyddyn denodd gwefan Chwarae Cymru 125,000 o ymweliadau i dudalennau gan 48,000 o ddefnyddwyr.

Bob mis byddwn yn dosbarthu e-fwletin i 2,600 o dderbynwyr. Mae'n cyflwyno crynodeb o bopeth sy'n newydd ar y wefan, o newyddion a chyfleoedd ariannu, i swyddi gwag yn y sector, i ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi.

## Dilynwyr cyfryngau cymdeithasol

Mae gennym dros 17,000 o ddilynwyr ar gyfrifon Facebook ac X (Twitter) Chwarae Cymru. O'u cyfuno â'r 6,500 o ddilynwyr ar ein cyfrifon Facebook ac Instagram *Plentyndod Chwareus*, mae hyn yn golygu ein bod yn rhannu gwybodaeth ac yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda dros 23,500 o bobl sydd â diddordeb yn ein gwaith.

## Adnoddau

Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd a dosbarthwyd ystod eang o adnoddau er mwyn helpu i hysbysu ein cynulleidfaoedd:

### Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*

Cyhoeddwyd dau rifyn a'u dosbarthu i 4,000 o dderbynwyr a hynny mewn print ac yn ddigidol. Mae pob rhifyn yn cynnwys enghreifftiau o bob cwr o Gymru. Fe wnaeth rhifynnau eleni ganolbwyntio ar:

- **Chwarae yn y blynyddoedd cynnar –** mae'r erthyglau'n tynnu sylw at sut y gall rhyngweithiadau, profiadau ac amgylcheddau cynnar greu sylfaen i blant wneud y mwyaf o'u cyfleoedd i chwarae wrth iddynt dyfu a datblygu.
- **Cynllunio ar gyfer chwarae** – mae'r erthyglau'n pwysleisio sut y mae annog plant i gyfranogi, i wneud penderfyniadau am eu hamgylchedd chwarae, a chydweithredu gyda phlant o bob oed i ateb eu hanghenion chwarae o fudd mawr i bawb sy'n rhan o'r broses.

### *Chwarae y tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar*

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei anelu at ymarferwyr ac asiantaethau sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, a sefydliadau sy'n anelu i ymgysylltu gyda theuluoedd. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd chwarae i blant o bob oed a chreu amgylchedd chwarae cyfoethog. Datblygwyd y pecyn cymorth mewn cydweithrediad ag ymchwilwyr o Brifysgol Caerwysg a Phrifysgol Stirling – Yr Athro Helen Dodd, Dr. Lily FitzGibbon a Gill Hearnshaw.

### *Agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae*

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei ddylunio i gynorthwyo ysgolion i gynnig cyfleoedd i blant chwarae yn yr ysgol y tu allan i oriau ysgol. Mae wedi ei ddylunio i gynorthwyo penaethiaid, llywodraethwyr a mudiadau lleol i weithio gyda'i gilydd ac mae'n anelu i ddileu rhai pryderon.

Fe wnaethom hefyd adolygu, diweddaru ac ailgyhoeddi dau adnodd arall sydd wedi'u hanelu at gefnogi cyfleoedd i chwarae mewn ysgolion: *Ysgol chwarae-gyfeillgar* a'r pecyn *Gweithdy hawl i chwarae*.

### Papurau briffio

Fe wnaethom gyhoeddi dau rifyn o *Ffocws ar chwarae* sy'n anelu i hysbysu cynulleidfa benodol neu ganolbwyntio ar bwnc penodol. Roedd un rhifyn yn canolbwyntio ar sut y mae chwarae'n cefnogi iechyd meddwl ac roedd y llall ar gyfer cynghorwyr sir.

### Awgrymiadau anhygoel a thaflenni gwybodaeth

Fe wnaethom ddatblygu cyfres newydd o awgrymiadau anhygoel i ddathlu'r Diwrnod Rhyngwladol Chwarae. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom hefyd adolygu, diweddaru ac ail lansio dwy daflen wybodaeth: *Gwaith chwarae – beth sy'n ei wneud mor arbennig?* ac *Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a rôl gweithwyr chwarae*.

### Llyfrau stori

Fe wnaethom barhau i ddosbarthu copïau print o'n tri llyfr stori – *Hwyl yn y dwnjwn, Hwyl yn yr ardd* a *Hwyl ar iard yr ysgol*.

### Ffilmiau byrion

Er mwyn tynnu sylw at waith chwarae fel proffesiwn ac i danlinellu'r hyn all darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored ei gynnig i blant a'i fuddiannau, fe wnaethom ddatblygu dwy ffilm fer. Mae'r ddwy'n cynnwys plant, rhieni a gweithwyr chwarae o bob cwr o Gymru:

- Beth sydd ei angen ar rywun i fod yn weithiwr chwarae?
- Beth yw darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored?

## Ymchwil

### *Chwarae a lles*




Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn adolygiad o ymchwil diweddar i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, gyda ffocws ar Gymru. Archwiliodd yr ymchwilwyr – y Dr Wendy Russell, gyda Mike Barclay a Ben Tawil o Ludicology – y cysylltiadau rhwng digonolrwydd cyfleoedd chwarae a lles plant. Mae'r adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr yn canolbwyntio ar rôl chwarae i les plant, patrymau chwarae plant, a chefnogaeth oedolion i chwarae plant.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn 10 mlynedd wedi dechrau'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a thra bod Llywodraeth Cymru'n cynnal ei Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth yn hysbysu'r gwaith parhaus yma. Cyhoeddwyd *Chwarae a lles*, yr adolygiad llenyddiaeth, ym mis Hydref 2024 a'i lansio mewn print yn ein cynhadledd genedlaethol.

Diwrnod Chwarae

## Diwrnod Chwarae

Dathliad blynyddol y DU o hawl plant i chwarae. Caiff ei gydlynu gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Mae Chwarae Cymru yn cynrychioli Cymru ar Grŵp Llywio'r Diwrnod Chwarae sy'n cydlynu'r ymgyrch flynyddol.

Roedd thema 2024, Chwarae – diwylliant plentyndod: Cefnogi chwarae, hwyl a chyfeillgarwch, yn canolbwyntio ar ddiwylliant cyfoethog a bywiog chwarae plant. Fel rhan o'r ymgyrch, fe wnaethom dynnu sylw at sut y mae chwarae'n cynhyrchu diwylliant plentyndod.

Fe anfonom lythyrau, ar ran pob plentyn yng Nghymru, at Aelodau'r Senedd i'w gwahodd i ymuno yn nigwyddiadau Diwrnod Chwarae 2024 yn eu hetholaeth.

### Diwrnod Rhyngwladol Chwarae

Ar 25 Mawrth 2024, mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig benderfyniad i sefydlu Diwrnod Chwarae Rhyngwladol blynyddol. Dathlwyd y Diwrnod Rhyngwladol Chwarae cyntaf erioed ar 11 Mehefin 2024.

Mae Diwrnod Rhyngwladol Chwarae y Cenhedloedd Unedig yn cydnabod hawl plant i chwarae a'i bwysigrwydd i'w lles. Mae'r diwrnod yn gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth yn fyd-eang am bwysigrwydd chwarae ac i ymgyrchu dros i chwarae gael ei ystyried ym mhob agwedd o fywydau plant.

Fe wnaethom gydweithio gydag IPA Cymru Wales ar alwad genedlaethol ar y cyd i warchod amser chwarae mewn ysgolion. Gyda'n gilydd, fe ofynnom i ysgolion roi amser ychwanegol i bob plentyn chwarae, er enghraifft, trwy ymestyn amser cinio neu ddarparu amser chwarae ychwanegol.

I ddathlu, fe wnaethom hefyd gyhoeddi argraffiad newydd o *Ysgol chwarae-gyfeillgar*, ein canllaw ar gyfer agwedd ysgol gyfan tuag at gefnogi hawl plant i chwarae, a rhyddhau ein llyfr stori *Hwyl ar iard yr ysgol* ar-lein am gyfnod byr.

# Cynulleidfaoedd a phrosiectau newydd

## Plentyndod Chwareus

Fel rhan o'n gwaith cynyddol i ymgysylltu gyda rhieni a gofalwyr, fe lansiom wefan *Plentyndod Chwareus* yn 2018 ac rydym yn dal i ddatblygu cynnwys defnyddiol ac ymarferol ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Ein cennad ar gyfer *Plentyndod Chwareus* yw i helpu oedolion i roi plentyndod hapus, iach i blant drwy chwarae. Bob dydd.

Mae'n anelu i helpu rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol i roi digonedd o gyfleoedd chwarae da i blant. Mae'r wefan hefyd yn ddefnyddiol i grwpiau lleol a chynghorau tref a chymuned i ddarparu cymdogaethau chwarae-gyfeillgar yn eu hardaloedd. Gall yr adnoddau hefyd gael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol yn eu gwaith â phlant a theuluoedd.

Mae'r wefan yn cynnig:

- syniadau ymarferol am roi amser, lle, rhyddid a phethau i chwarae gyda nhw
- awgrymiadau anhygoel, canllawiau 'sut i' a syniadau ar gyfer chwarae plant
- gwybodaeth am godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae, cyngor ar gynllunio mannau chwarae ac ymgyrchu dros chwarae
- detholiad o enghreifftiau ysbrydoledig o brosiectau a grwpiau ledled Cymru sy'n sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i chwarae.

Mae ein gweithgarwch yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- denu 38,000 o ymweliadau i dudalennau'r wefan, gan 23,000 o ddefnyddwyr.
- parhau i ymgysylltu gyda'n 6,500 o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd.
- ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru i rannu negeseuon amserol fel rhan o'i ymgyrch Teulu Cymru.
- parhau i ddefnyddio canfyddiadau o werthusiad allanol o'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, wnaeth gynnwys holiadur ar-lein a grwpiau ffocws, i hysbysu ein gwaith ac archwilio datblygiadau i'r dyfodol. Mae adborth cadarnhaol ac adeiladol wedi ein hysgogi i gomisiynu cynnwys ysgrifenedig newydd, erthyglau blog yn bennaf.
- defnyddio clipiau fideo byr bytholwyrdd er mwyn helpu i gefnogi rhieni i roi amser, lle a rhyddid i'w plant chwarae gartref ac yn eu cymdogaeth – sydd i gyd yn syniadau chwarae rhad er mwyn cofio ystyried yr argyfwng costau byw – trwy gydol y flwyddyn ac ar ddyddiau cynyddu ymwybyddiaeth penodol.



## Dewch inni siarad am chwarae

Ym mis Mai 2024, fe wnaethom lansio ein cwrs ardystiedig newydd. Mae'r cwrs Dewch inni siarad am chwarae wedi ei ddylunio fel cyflwyniad i chwarae a gwaith chwarae. Mae'r cwrs yn cynnwys pecyn cynhwysfawr o adnoddau addysgu a dysgu sydd ar gael i'w trosglwyddo gan unrhyw diwtor sydd wedi llwyddo i gwblhau'r Wobr Lefel 3 mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT).

Mae'r cwrs yn cynnwys tair sesiwn:

- Mae **Pam chwarae?** yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o beth yw chwarae a pham ei fod yn bwysig. Mae'r sesiwn hon wedi ei hanelu at y gweithlu chwarae – y rheini sydd mewn rolau allai effeithio ar hawl y plentyn i chwarae.
- Mae **Beth yw chwarae a gwaith chwarae?** a **Pam gwaith chwarae?** yn cyflwyno chwarae a chwarae fel gweithgaredd ac yn datblygu dealltwriaeth o rôl gweithwyr chwarae. Mae'r sesiynau hyn yn cael eu hanelu at wirfoddolwyr, pobl sy'n newydd i'r proffesiwn fel cwrs lefel mynediad, neu weithwyr chwarae tymhorol fel cwrs gloywi.

Nodau'r cwrs yw:

- datblygu dealltwriaeth gyffredin o beth mae chwarae'n ei olygu a sut y mae o fudd i blant
- deall sut y gall oedolion sy'n gweithio gyda phlant, neu mewn rolau ble y gwneir penderfyniadau am gyfleoedd plant i chwarae, gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar brofiad chwarae plant
- meithrin ymwybyddiaeth ynghylch pam fod plant angen chwarae a sut y mae oedolion yn hybu'r hawl i chwarae a meithrin amgylchedd ble caiff hawl y plentyn i chwarae ei amddiffyn.

Mae'r cwrs, yn ogystal â'r deunyddiau dysgu ac addysgu, yn waddol y Prosiect Llysgenhadon Chwarae a arianwyd gan y Gronfa Iach ac Egnïol.

## Chwarae mewn gofal iechyd

Mae chwarae'n hanfodol i iechyd a hapusrwydd plant, a dylid rhoi blaenoriaeth iddo pan fydd plant yn sâl. Dylai pob plentyn sy'n aros mewn ysbyty neu sy'n derbyn gofal iechyd hirdymor gael mynediad dyddiol i wasanaethau chwarae iechyd. Mae rhaid i'r pwyslais fod ar ymarfer diogel a phrofiad gwell i'r claf sy'n ystyried iechyd a lles uniongyrchol a thymor hir plant ochr yn ochr â'u hanghenion gofal iechyd.

Fe wnaethom gydweithio gyda Starlight, yr elusen sy'n gweithio i osod chwarae wrth galon gofal iechyd i blant, i symud gwaith yn ei flaen ar danlinellu pwysigrwydd chwarae mewn gofal iechyd. Fe wnaeth y gwaith gynnwys:

- sefydlu rhwydwaith o Reolwyr Chwarae Iechyd
- datblygu a throsglwyddo cyfres o weminarau dysgu proffesiynol
- cynnal arolwg o'r gweithlu chwarae gofal iechyd cyfredol yng Nghymru
- hyrwyddo pwysigrwydd chwarae gyda chydweithwyr polisi allweddol.

## IPA Cymru Wales

Mae'r International Play Association (IPA) yn sefydliad rhyngwladol anllywodraethol a sefydlwyd yn 1961 i amddiffyn, gwarchod a hyrwyddo hawl plant i chwarae. Mae gan yr IPA aelodaeth eang ac amrywiol gyda changhennau gweithgar o amgylch y byd. Mae canghennau'r IPA yn sylfaen i rwydwaith byd-eang ac yn cefnogi gweithgareddau rhyngwladol a rhaglenni gwaith yr IPA.

Wedi helpu i sefydlu cangen o'r IPA yma yng Nghymru, mae Chwarae Cymru'n gweithredu fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer IPA Wales Cymru. Mae ein gwaith yn cynnwys:

- hyrwyddo aelodaeth yn weithredol i bobl sy'n cynnwys academyddion, ymarferwyr a llunwyr polisi
- cydlynu gweithgarwch i aelodau, yn cynnwys cynhyrchu adnoddau, i nodi Diwrnod Rhyngwladol Chwarae y CU 2024
- trafod a chynllunio cychwynnol ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Chwarae 2025.



# Ymholiadau gan y cyhoedd

**Yn ogystal â'r gronfa eang o wybodaeth a ddarperir trwy ein gwefan, rydym wedi derbyn ac ymateb i amrywiaeth eang o ymholiadau dros y ffôn, trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost oddi wrth rieni, aelodau etholedig, dysgwyr, ysgolion a mudiadau bychain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

Mae'r ymholiadau y gwnaethom ymateb iddynt trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio'n cynnwys:

- cymwysterau addas ar gyfer lleoliadau chwarae a gofal plant sydd wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- cyngor ariannu ar gyfer prynu offer chwarae a datblygu ardaloedd chwarae mewn cymunedau
- cymwysterau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg cynllun chwarae
- dysgwyr sydd am ymgymryd â hyfforddiant gwaith chwarae, a chymwysterau lefel 3 yn benodol
- ymholiadau ymchwil oddi wrth fyfyrwyr astudiaethau plentyndod a gwaith chwarae
- cyngor ariannu ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae
- cefnogaeth ar gyfer achub caeau chwarae ysgolion ac amseroedd chwarae
- cyngor ar lain o dir neu ddylunio gofod chwarae
- hysbysebu swyddi, yn enwedig cynlluniau chwarae haf
- llythyrau o gefnogaeth i gymunedau sy'n ymgyrchu am ardaloedd chwarae ac ar gyfer ceisiadau ariannu.



**Adolygir yr ymholiadau hyn yn rheolaidd a'u defnyddio i hysbysu ychwanegu gwybodaeth newydd i'n gwefan.**

# Cefnogwyr Chwarae Cymru

Dewch yn gefnogwr Chwarae Cymru:
**www.chwarae.cymru/amdanom-ni/cefnogwch-ni**

**Mae Chwarae Cymru yn fudiad i aelodau. Cofrestrwch i Gefnogi Chwarae Cymru yn rhad ac am ddim ac ymuno â'r ymgyrch i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar, gan eiriol dros chwarae plant ar draws y wlad.**

**Yma yn Chwarae Cymru, rydym wastad yn ymdrechu i wneud Cymru'n wlad sy'n chwarae-gyfeillgar. Dyna pam ein bod eich angen chi i ymuno â ni. Mae ein haelodaeth Cefnogwr Chwarae Cymru am ddim yn agored i bob sefydliad ac unigolyn sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Os ydych chi'n byw y tu allan i Gymru, gallwch ddod yn Gefnogwr Rhyngwladol Chwarae Cymru – mae hwnnw am ddim hefyd.**

**Mae dod yn Gefnogwr Chwarae Cymru yn rhoi ystod o fuddiannau i chi – o ostyngiad ar brisiau ein digwyddiadau, i gael golwg gyntaf ar adnoddau newydd i gyfleoedd i helpu datblygu ein hymgyrchoedd.**

## Buddiannau i gefnogwyr

- **Gostyngiad ar brisiau ein digwyddiadau** – rydym yn trefnu digwyddiadau yn rheolaidd, a hynny ar-lein ac wyneb yn wyneb. Fel Cefnogwr, byddwch yn derbyn gostyngiad a'r brisiau, gan ei gwneud hyd yn oed yn haws i chwarae rhan weithredol ac i gysylltu gyda phobl o'r un meddwl.
- **Golwg gyntaf ar adnoddau newydd** – mae Cefnogwyr Chwarae Cymru'n cael mynediad cynnar i'r cyhoeddiadau, yr ymchwil a'r adroddiadau diweddaraf, gan eich hysbysu am y datblygiadau chwarae a gwaith chwarae diweddaraf.
- **Cyfrannu at weithgareddau a syniadau ymgyrchu** – fel Cefnogwr Chwarae Cymru, cewch gyfle i ddweud eich dweud. Gallwch ymuno â grwpiau ffocws, cymryd rhan mewn holiaduron, ac ateb cwestiynau ymchwil er mwyn helpu i wella cyfleoedd chwarae plant yn lleol ac yn genedlaethol.
- **E-fwletinau misol** – bydd ein e-fwletinau misol yn eich helpu i gadw llygad ar yr holl newyddion diweddaraf ym meysydd gwaith chwarae a chwarae. Bydd dod yn Gefnogwr yn golygu y byddwch yn derbyn y newyddion diweddaraf ar chwarae plant, i gyd mewn un lle.
- **Cael eich hysbysu am ymgynghoriadau allweddol** – chi fydd y cyntaf i glywed am ymgynghoriadau newydd a chael cyfle i ddweud eich barn wrthym. Mae'r ymgynghoriadau hyn yn ffordd wych o gyfrannu at ddatblygu Cymru sy'n chwarae-gyfeillgar.
- **Lobïo dros newid** – trwy ymuno â ni fel Cefnogwr Chwarae Cymru, gallwch ein helpu i lobïo dros newid ble bynnag mae ei angen. Mae ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn ffeithiol, yn hygyrch, ac yn sicrhau newid.

### Buddiannau i Gefnogwyr Rhyngwladol

Mae ein buddiannau aelodaeth i Gefnogwyr Rhyngwladol yn gyfyngedig gan mai Cymru yw ein hardal gofrestredig o fudd elusennol. Mae buddiannau i Gefnogwyr Rhyngwladol yn cynnwys:

- Golwg gyntaf ar adnoddau newydd
- E-fwletinau misol
- Hysbysiadau am ymgynghoriadau allweddol
- Cyfleoedd i lobïo dros newid.

# Cefnogaeth a gwaith eiriol

## Cymru

Bu Chwarae Cymru'n rhan o amrywiol weithgorau Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod chwarae plant yn derbyn y statws y mae'n ei haeddu:

- Grŵp Monitro CCUHP Cymru
- Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar
- Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar
- Cyngor Polisi Plant yng Nghymru
- Grŵp Arbenigol Plant Egnïol Iach Cymru
- Grŵp Llywodraethiant Gofal Plant a Chwarae Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ac is-grwpiau cysylltiedig
- Grŵp Rhanddeiliaid Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid Cynllun Gweithredu Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar (ECEC) Llywodraeth Cymru
- Grŵp Trawsbleidiol Y Senedd ar Blant a Theuluoedd
- Gweithgor Gofal Plant a Chwarae Arolygiaeth Gofal Cymru.

## Y DU ac yn rhyngwladol

Rydym hefyd yn rhan o amrywiol grwpiau polisi yn y DU ac yn fyd-eang, gan fynychu cyfarfodydd sefydliadau perthnasol i sicrhau bod mentrau'r DU gyfan yn adlewyrchu datblygiad ac ymarfer gorau yng Nghymru:

- UK Play Safety Forum
- UK Children's Play Policy Forum
- Grŵp Llywio'r Diwrnod Chwarae cenedlaethol
- Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU
- International Play Association (IPA) Cymru Wales ac IPA World
- Bwrdd Learning through Landscapes.

'Diolch ichi am eich cefnogaeth. Rydych wedi bod yn hael iawn gyda'ch profiad, gwybodaeth, adnoddau, ac eiriol dros ein gwaith gyda'ch rhwydweithiau.'

**Gwas Sifil**

## Ymgynghoriadau

Fe wnaethom ymateb i nifer o ymgynghoriadau cenedlaethol perthnasol:

- Ymgynghoriad Atal iechyd gwael – gordewdra (Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Y Senedd)
- Strategaeth ddrafft Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol
- Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant
- Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW)
- Gwaith ieuenctid yng Nghymru: darparu ar gyfer pobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd ein gwasanaethau gan:


- academyddion a sefydliadau prifysgolion
- swyddogion y Llywodraeth
- aelodau o'r cyhoedd sy'n ymgyrchu i sefydlu neu warchod darpariaeth chwarae
- sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau chwarae plant – awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â chynghorau cymuned
- sefydliadau sy'n darparu neu'n cefnogi gwasanaethau plant – awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol
- rhieni a gofalwyr
- hyfforddwyr gwaith chwarae a rheolwyr gweithwyr chwarae
- gweithwyr chwarae, gweithwyr datblygu chwarae a swyddogion datblygu chwarae
- gweithwyr proffesiynol mewn sectorau megis gofal plant a gwaith ieuenctid, y blynyddoedd cynnar, polisi addysg, addysg bellach, gofal iechyd a chymdeithasol, iechyd y cyhoedd, cynllunio gwlad a thref
- athrawon, penaethiaid ysgolion, llywodraethwyr a seicolegwyr addysg.

# Adolygiad ariannol – crynodeb

**Adroddiadau incwm a gwariant Chwarae Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen Mawrth 2025.**


## Cyfanswm incwm: £606,983

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £501,000 |
| Incwm arall | £22,264 |
| Grantiau eraill | £41,000 |
| Buddsoddiadau | £18,642 |
| Cyfraniadau | £1,448 |
| Cyhoeddiadau | £14,923 |
| Digwyddiadau | £7,706 |



## Cyfanswm gwariant: £650,115

| | |
|---|---|
| Polisi chwarae, cymorth ac eiriolaeth | £290,806 |
| Datblygu'r gweithlu | £193,115 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth | £166,194 |



# Cyflawniadau: 1998-2024

**Ers 1998, mae Chwarae Cymru wedi eiriol ac ymgyrchu'n llwyddiannus dros chwarae, ac wedi annog a chefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau ymrwymiadau cwbl arloesol yn rhyngwladol ar ran plant.**

## Rhagor o gyllid ar gyfer chwarae plant

- Yn 2000, yn dilyn lobïo gan Chwarae Cymru, dosbarthodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grant Chwarae o £1m i greu darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio. Mae'r grant wedi parhau fel elfen o gyllid grant gwahanol yn y blynyddoedd ers hynny.
- Yn 2006, derbyniodd Chwarae Cymru gytundeb tair blynedd ar gyfer helpu i drosglwyddo rhaglen Chwarae Plant £13m Cronfa'r Loteri FAWR, i gefnogi cynyddu cynhwysedd a phrosiectau chwarae strategol yng Nghymru.
- Mae Chwarae Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o ariannu gaiff ei ryddhau trwy'r Grant Cynyddu Cyfleoedd i Chwarae Cymru Gyfan, Llywodraeth Cymru.
- Yn 2019, yn dilyn lobïo gan Chwarae Cymru ac eraill, sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun Llwgu yn ystod y gwyliau: peilot gwaith chwarae i brofi dichonoldeb mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau trwy leoliadau chwarae a chymunedol. Gan ddefnyddio dysg a gasglwyd o'r peilot, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1m i'r cynllun hwn i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol yn flynyddol.
- Yn 2019, dyfarnwyd cyllid Y Gronfa Iach ac Egnïol (HAF) i Chwarae Cymru i sefydlu prosiect pedair blynedd Llysgenhadon Chwarae Cymunedol ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda phobl leol i sefydlu Fforymau Chwarae Cymdogaethau fyddai'n dynodi ffyrdd o annog cyfleoedd rheolaidd i blant chwarae. Yn ogystal, cefnogodd y prosiect y bobl ifanc 14 i 19 oed i ddod yn Llysgenhadon Chwarae Cymunedol gwirfoddol. Gwnaethpwyd hyn trwy gynnig hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad gwaith mewn lleoliadau gwaith chwarae.
- Yn 2020, fel rhan o becyn ariannu Ail-greu ar ôl Covid-19: yr heriau a'r blaenoriaethau, dyrannodd Llywodraeth Cymru £500,000 o gyllid refeniw ar gyfer Prosiect Gwaith Chwarae a £3m o gyllid cyfalaf i awdurdodau lleol er mwyn gwella cyfleoedd chwarae awyr agored ar gyfer plant.
- Trwy grantiau bychain a chomisiynau allanol, mae Chwarae Cymru wedi peilota ac ymchwilio i brosiectau sy'n ystyried: chwarae mewn gofal iechyd (yn enwedig wardiau gofal pediatrig acíwt), chwarae mewn llety dros dro, strydoedd chwarae dan arweiniad trigolion, a defnyddio tiroedd ysgolion ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau ysgol.

## Cydnabyddiaeth genedlaethol gynyddol i chwarae

- Yn 2000, comisiynwyd Chwarae Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu adroddiad *Cyflwr chwarae*, a ddiweddarwyd ers hynny yn 2003, 2006, 2009 a 2011. Ers cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae Chwarae Cymru wedi adolygu'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a gyflwynwyd yn 2013, 2016, 2019 a 2022, ac adolygu amrywiol Adroddiadau Cynnydd yn y blynyddoedd rhwng y rhain.
- Cynorthwyodd Chwarae Cymru Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu *Polisi Chwarae* 2002 – y cyntaf yn y byd. Yn ogystal, cynorthwyodd Chwarae Cymru gyda'r gwaith o ddatblygu *Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae* Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006).
- Yn 2012, deddfodd Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae plant. Mae cyfleoedd chwarae wedi eu cynnwys ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Trwy ymateb i ymgynghoriadau, cynorthwyodd ein haelodau i sicrhau bod pwysigrwydd chwarae â man amlwg yn y ddeddfwriaeth Gymreig arloesol hon. Elfen arloesol arall – mae'n bosibl mai dyma'r datblygiad pwysicaf i ddigwydd ar gyfer chwarae plant yng Nghymru.

- Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, *Cymru – Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae*, cyfarwyddyd statudol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Mae Chwarae Cymru wedi parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i bob rhanddeiliad o ran gweithredu'r cyfarwyddyd hwn.
- Yn 2017, gweithiodd Chwarae Cymru'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar raglen *Pob Plentyn Cymru* sy'n cydnabod pwysigrwydd allweddol chwarae i iechyd corfforol ac emosiynol plant.
- Yn 2019 a 2023, comisiynodd Chwarae Cymru ymchwilydd i ddadansoddi data o filoedd o Holiaduron Bodlonrwydd Chwarae a gwblhawyd gan blant ar draws Cymru fel rhan o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol. Mae'r canfyddiadau, sy'n dangos yr hyn sy'n dda ac sydd ddim cystal am gyfleoedd plant i chwarae, wedi eu cyhoeddi yn ein hadroddiadau *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae*.
- Rhwng 2019 a 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Nod yr adolygiad oedd asesu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gyflawni o ran polisi chwarae ac i'w hysbysu ynghylch sut i symud yr agenda chwarae yn ei blaen i'r dyfodol. Chwarae Cymru dderbyniodd y dasg o gydlynu ysgrifennu'r adroddiad terfynol a'r papur cefndir ar ran y grŵp llywio. Yn ogystal, comisiynwyd Chwarae Cymru i gynhyrchu'r fersiwn o'r adroddiad ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Gweithlu dynamig

- Datblygodd Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* (2001) ac *Yr Hawl Cyntaf – Prosesau Dymunol* (2002). Mae'r cyhoeddiadau hyn yn anelu i gefnogi pobl sy'n gweithio gyda phlant i ddadansoddi amgylcheddau chwarae ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer asesu ansawdd yr hyn y darperir ar ei gyfer, a'i brofi gan blant.
- Yn 2004, arweiniodd Chwarae Cymru adolygiad y DU o'r Gwerthoedd a Rhagdybiaethau Gwaith Chwarae. Yn dilyn ymgynghoriad, mabwysiadodd y sector yr Egwyddorion Gwaith Chwarae yn 2005. Bellach, mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n ffurfio sail i'r safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer gwaith chwarae yn y DU.



- Yn 2005, er mwyn datblygu arfer gwaith chwarae cyfoes, gweithiodd Chwarae Cymru gyda'r Scottish Qualifications Authority (SQA) i gynnig cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) ar lefel 2 a 3. Er mwyn cefnogi'r hyfforddiant arloesol yma, fe wnaethom gynhyrchu deunyddiau dysgu ysbrydoledig.
- Rhwng Chwarae Cymru, Llywodraeth Cymru ac ariannu Ewropeaidd, rydym wedi buddsoddi dros £1.5m yn y gwaith o ddatblygu, peilota a throsglwyddo Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$).
- Mae Chwarae Cymru wedi parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae'n ateb anghenion y gweithlu. Mae'r gwaith yma wedi cynnwys datblygu dau gymhwyster sydd wedi eu hanelu at y bobl hynny sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau: y Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau (MAHPS) (Agored Cymru) yn 2015 a'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) yn 2016. Ar yr un pryd, cynhaliwyd adolygiad, diweddariad a chyflwyno Tystysgrif Lefel 2 a Diploma Lefel 3 newydd $P^3$, gan weithio gydag Agored Cymru ac Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales.
- Ers 2017, mae Chwarae Cymru wedi darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Wales) sy'n cymeradwyo cymwysterau sy'n ffurfio

trwydded i ymarfer; i ymddangos ar y *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*. Defnyddir y rhestr hon gan gyflogwyr ac Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod gan leoliadau a reoleiddir staff sy'n meddu ar gymwysterau addas.

- Yn 2021, dechreuodd Chwarae Cymru ddatblygu cynllun sicrwydd ansawdd. Yn 2024 cynhaliwyd peilot o *Chwarae o Safon*, marc ansawdd gwaith chwarae. Bwriedir i'r cynllun sicrwydd ansawdd hwn, sy'n cynnwys hunanasesiad yn ogystal ag asesiad allanol, gael ei ddefnyddio ym mhob lleoliad gwaith chwarae, boed yn anrheoleiddiedig neu'n lleoliadau a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'n gymwys hefyd i'r rheini sy'n ymwneud â gwaith chwarae mewn lleoliadau gwaith chwarae amhenodedig.
- Yn 2024, cynullodd Chwarae Cymru Gonsortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU gychwynnodd adolygiad, wedi ei hunan-ariannu, o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae. Chwarae Cymru sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y consortiwm.
- Yn 2024, lansiodd Chwarae Cymru gwrs ardystiedig – Dewch inni siarad am chwarae – a ddyluniwyd fel cyflwyniad i chwarae a gwaith chwarae. Mae wedi ei anelu at y gweithlu gwaith chwarae (y rheini mewn rolau allai effeithio ar hawl y plentyn i chwarae), yn ogystal â gwirfoddolwyr, pobl sy'n newydd i'r proffesiwn fel cwrs lefel mynediad, neu i weithwyr chwarae tymhorol fel cwrs gloywi. Gall y cwrs hwn gael ei drosglwyddo gan unrhyw diwtor sydd wedi llwyddo i gwblhau'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT) a daw gyda phecyn cynhwysfawr o adnoddau addysgu a dysgu. Mae'r cwrs yn waddol o'n Prosiect Llysgenhadon Chwarae Cymunedol.

## Gwell ymwybyddiaeth o chwarae yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

- Trwy'r wefan a thrwy gyhoeddi e-fwletinau, cylchgronau, taflenni gwybodaeth, pecynnau cymorth, llyfrau a phosteri yn rheolaidd, mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo chwarae plant yn eang iawn. Caiff ein gwefan ei hystyried yn rhyngwladol fel un o'r rhai mwyaf effeithlon wrth gyflwyno gwybodaeth amserol am chwarae plant.
- Mae Chwarae Cymru'n darparu hyfforddiant, seminarau a chynadleddau ar gyfer pawb sy'n darparu a chefnogi chwarae plant – gan gynnwys Cynhadledd Fyd-eang 2011 yr International Play Association (IPA).
- Yn 2011, derbyniodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd, Carwyn Jones, Wobr Hawl i Chwarae'r IPA ar ran pob un yng Nghymru sy'n ymdrechu i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar. Cymru yw'r wlad gyntaf i dderbyn y wobr arobryn hon.
- Yn 2012, cefnogodd Chwarae Cymru waith yr IPA gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddrafftio a mabwysiadu Sylw Cyffredinol sy'n egluro i lywodraethau ar draws y byd ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 o'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Yn 2013, gweithiodd Chwarae Cymru gyda phlant yng Nghymru i ddatblygu adnoddau i hyrwyddo'r hawliau a amlinellir yn Erthygl 31 o GCUHP ar ran yr IPA i gyd-fynd â lansiad Sylw Cyffredinol rhif 17.
- Ysgrifennodd aelodau o dîm Chwarae Cymru becyn cymorth yr IPA, *Access to Play for Children in Situations of Crisis* (2017).
- Ers 2013, mae Chware Cymru wedi comisiynu tri adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau prosiectau ymchwil graddfa fechan, gyda'r cyntaf yn archwilio sut ymatebodd awdurdodau lleol i gyflwyniad y ddyletswydd i asesu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant a'r ail yn ymchwiliad dilynol oedd yn edrych ymlaen at gychwyn ail ran y Ddyletswydd, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant. Mae'r trydydd yn archwilio canfyddiadau pobl o'r hyn sydd wedi newid ar gyfer cyfleoedd chwarae plant ers i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gychwyn yn 2012.
- Yn 2018, lansiodd Chwarae Cymru ymgyrch a gwefan *Plentyndod Chwareus* er mwyn helpu rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol i roi digon o gyfleoedd da i blant chwarae – gartref ac allan yn y gymuned. Mae'r wefan hefyd yn llawn adnoddau defnyddiol ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.
- Ers 2018, rydym hefyd wedi cynnal ymgyrchoedd cryfion, cryno – wedi eu hysbysu gan blant ac arddegwyr ledled Cymru – o dan frand *Plentyndod Chwareus*, ar amrywiol destunau amserol, er mwyn cefnogi chwarae plant. Mae enghreifftiau'n



cynnwys herio rhagdybiaethau am ymddygiad arddegwyr mewn mannau cyhoeddus, a hybu buddiannau cyfleoedd rhad neu ddigost i chwarae ar gyfer plant o bob oed, gan gydnabod effaith dybryd yr argyfwng costau byw ar deuluoedd.

- Mae Chwarae Cymru'n dal i gydweithio gydag ymgyrch tymor hir Llywodraeth Cymru sef Teulu Cymru (a'i rhagflaenydd, Magu plant. Rhowch amser iddo) i rannu gwybodaeth a negeseuon yr ymgyrch er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach, ond cydnaws.
- Ers 2019, mae Chwarae Cymru wedi cyhoeddi tri llyfr stori darluniadol i blant sy'n dathlu hawl plant i chwarae. Mae'r tri llyfr – *Hwyl yn y dwnjwn, Hwyl yn yr ardd*, a *Hwyl ar iard yr ysgol* – wedi eu datblygu mewn partneriaeth â chyhoeddwr cymunedol hirsefydlog. Ffurfiwyd grwpiau ysgrifennu straeon – yn cynnwys plant, rhieni a staff sy'n gweithio gyda phlant – a'u cefnogi gan awdur a bardd i helpu i ddatblygu pob un o'r llyfrau stori. Mae'r llyfrau'n crynhoi pa mor bwysig yw oedolion ac amgylcheddau cefnogol a goddefgar wrth helpu plant i fwynhau eu hawl i chwarae.
- Yn 2021, comisiynydd Chwarae Cymru ymchwilwyr i gynnal adolygiad llenyddiaeth o ymchwil diweddar i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, gyda ffocws ar Gymru. Cynhaliwyd yr adolygiad, sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng digonolrwydd cyfleoedd chwarae a lles plant, 10 mlynedd wedi cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a thra roedd Llywodraeth Cymru'n cynnal ei Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth yn hysbysu'r gwaith parhaus hwn.
- Yn 2023, lansiwyd ffilm fer newydd, *Dyma pam mae chwarae mor bwysig*, sy'n dathlu chwarae ac yn amlygu ei bwysigrwydd i bob plentyn. Mae gan y ffilm, sy'n cynnwys plant o bob cwr o Gymru, ffocws cryf ar leisiau'r plant ac arddegwyr. Wedi ei ffilmio dros gyfnod o ddwy flynedd ar draws Cymru, mae'r ffilm ddogfen yn portreadu pam fod chwarae'n hanfodol ar gyfer datblygiad, iechyd, lles a hapusrwydd plant.
- Yn 2023, lansiwyd IPA Cymru Wales – cangen o'r International Play Association. Mae Chwarae Cymru'n darparu cymorth ysgrifenyddiaeth i'r gangen.
- Mae Chwarae Cymru'n cydweithio gyda sefydliadau cenedlaethol eraill ar hyd a lled y DU ar ymgyrchoedd a dyddiau ymwybyddiaeth, fel Diwrnod Chwarae a Diwrnod Rhyngwladol Chwarae y Cenhedloedd Unedig, i gynyddu proffil chwarae ac i hybu hawl plant i chwarae.

**Mae hyn i gyd wedi cyfrannu at weld mwy o blant yn cael amser, rhyddid a chaniatâd i chwarae. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod Cymru'n wlad ble y caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod – ychwanegwch eich llais er mwyn ein helpu i wneud mwy.**

**Am fwy o wybodaeth am hanes polisi chwarae yng Nghymru, gweler ein poster llinell amser Chwarae yng Nghymru:**
**www.chwarae.cymru/polisi-chwarae/hanes-polisi**

# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol 2025-2026

**Bydd Chwarae Cymru'n parhau i weithio i hybu chwarae plant a gweithredu fel eiriolwr dros blant a'u hanghenion chwarae. Yn benodol, rydym yn rhagweld y byddwn yn ymgymryd â'r canlynol:**

- Parhau i gefnogi darparwyr cyfleoedd chwarae i ymateb i newidiadau yn y dirwedd gymdeithasol, wleidyddol ac ariannol mewn modd chwarae-gyfeillgar.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r cerrig milltir a amlinellir yn yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.
- Parhau i drosglwyddo gwasanaeth cyfathrebu sydd wedi ei anelu at ein cynulleidfa eang trwy ddarparu cyhoeddiadau ffocws, postio uniongyrchol a gwefannau wedi'u diweddaru yn ogystal ag ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cyfrannu at a hysbysu eiriolaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol drwy waith prosiect ac aelodaeth o bwyllgorau a grwpiau.
- Cynorthwyo awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i ymgysylltu gydag ac ymateb i bolisi cenedlaethol trwy ddigwyddiadau, hwyluso rhwydweithiau a chyngor.
- Parhau i weithio gyda sefydliadau ymchwil i ddynodi'r hyn y mae plant yn ei ddweud am fynediad i chwarae.
- Adolygu a gweithredu *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, ein cynllun datblygu'r gweithlu.
- Lansio a hyrwyddo *Chwarae o Safon* – fframwaith sicrhau ansawdd gwaith chwarae.
- Gweithio gyda chanolfannau cymeradwy i sicrhau bod trosglwyddiad cymwysterau gwaith chwarae Agored Cymru, a hyfforddiant arall, yn parhau i fod o ansawdd ac yn ymateb i anghenion y gweithlu.
- Gweithio gyda Thimau Lleol Iechyd y Cyhoedd i gytuno ar a rhannu negeseuon ynghylch chwarae plant.
- Cynnal a chyhoeddi adroddiad Cymru gyfan o holiaduron a gwblhawyd gan blant ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o'u Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae yn 2025.
- Trosglwyddo ymgyrchoedd *Plentyndod Chwareus* i gefnogi rhieni a gofalwyr i ddarparu cyfleoedd digonol i blant chwarae gartref ac yn eu cymunedau.
- Datblygu a throsglwyddo cynhadledd genedlaethol ac ystod eang o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer gweithwyr chwarae a phobl eraill y mae eu gwaith yn effeithio ar blant.
- Adolygu, diweddaru a gweithredu ein Strategaeth Codi Arian er mwyn ein galluogi i drosglwyddo prosiectau ychwanegol.
- Parhau i danlinellu a phwysleisio pwysigrwydd darparu chwarae mewn gofal iechyd.
- Arwain yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae, ar ran Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU.
- Gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i'w cefnogi i drosglwyddo hyfforddiant gwaith chwarae ardystiedig.
- Datblygu a chyhoeddi maniffesto i hysbysu etholiad Senedd Cymru yn 2026.

**Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu datblygu a'u trosglwyddo mor effeithlon â phosibl, byddwn yn adolygu a datblygu cynllun gweithredol Chwarae Cymru'n barhaus.**

# Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru – llywodraethu

Mae gennym Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio rhedeg Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein amcanion mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â'r gyfraith. Ceir hefyd nifer o Sylwedyddion i'r Bwrdd sy'n cefnogi'r Ymddiriedolwyr ond sydd yn ddibleidlais.

Penodir ein Hymddiriedolwyr gan y Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfrannu ystod o arbenigedd, sgiliau a phrofiadau ac yn cael eu dewis i roi amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth i'r Bwrdd o ddatblygiad plant, eu chwarae, a'r ffordd orau y gall Chwarae Cymru gyfrannu at greu cenedl lle mae gan blant amser, lle a chaniatâd i chwarae.

(ym mis Mawrth 2025)

**Dr Rhian Barrance**
Prifysgol Caerdydd

**Dr Anne Crowley**

**Matluba Khan**
Prifysgol Caerdydd

**Malcolm King OBE**

**Yr Athro Ronan Lyons**
Prifysgol Abertawe

**Keith Towler** (Cadeirydd)

**Dr Jacky Tyrie**
Prifysgol Abertawe

**Elspeth Webb**

**Hana Hersi**

## Mudiadau sy'n sylwedyddion

**Catherine Davies**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Hugh Russell**
Plant yng Nghymru

# Tîm Chwarae Cymru

(ym mis Mawrth 2025)

**Danielle Beattie**
Rheolwr Gweithrediadau

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr

**Martin King-Sheard**
Swyddog Datblygu'r Gweithlu

**Marianne Mannello**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi, Cymorth ac Eiriolaeth

**Ruth O'Donoghue**
Swyddog Cyllid

**Joanne Williams**
Cynorthwyydd Gweinyddol a Digwyddiadau

**Angharad Wyn Jones**
Rheolwr Cyfathrebu

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen gofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru Mai 2026